

Ffurflen newid enw pleidleisiwr

Newid eich enw

Dylech ond cwblhau'r ffurflen hon ar ôl i chi newid eich enw.
Defnyddiwch **inc du** ac ysgrifennwch mewn PRIFLYTHRENNAU.

Mae angen i ni weld prawf eich bod wedi newid eich enw. Anfonwch un o'r canlynol atom:

- Tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil
- Tystysgrif geni wedi'i diwygio
- Tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil o dramor
- Gweithred newid enw

Os nad oes gennych un o'r rhain, gellir derbyn dogfennau eraill yn brawf. Cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar dudalen gyntaf y ffurflen hon.

1 Eich enw llawn presennol

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

2 Eich enw llawn blaenorol

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Nodwch ar ba ddyddiad y gwnaethoch newid eich enw.

D D M M B B B B

3 Eich cyfeiriad

Rhowch y cyfeiriad lle rydych wedi cofrestru i bleidleisio ar hyn o bryd.

.....
Cod post

4 Manylion cyswllt

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

Mae nodi eich cyfeiriad e-bost neu rif ffôn yn rhoi ffordd gyflym a hawdd i ni o gysylltu â chi ynglŷn â'ch cais.

5 Datganiad

Hyd eithaf fy ngwybodaeth, mae'r wybodaeth ar y ffurflen hon yn wir. Rwy'n deall y caiff y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon ei defnyddio ar y gofrestr etholiadol. Rwy'n deall ei bod yn drosedd rhoi gwybodaeth anwir ar y ffurflen hon yn fwriadol, ac y gallwn gael dirwy anghyfyngedig a/neu hyd at chwe mis o garchar.

Llofnod

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B

(Barcode goes here)

Datganiad preifatrwydd

Rydym yn casglu gwybodaeth o dan y sail gyfreithiol ei bod yn dasg a gynhelir er budd y cyhoedd, fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a rheoliadau cysylltiedig. Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Os ydych wedi dewis peidio ag ymddangos ar y gofrestr agored, byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni at ddibenion etholiadol, gan gynnwys ei chyfateb yn erbyn ffynonellau eraill o ddata ar y gofrestr etholiadol. Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol ag unrhyw un arall, oni bai ei bod yn rhaid i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni rannu eich gwybodaeth ag ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr at ddibenion ymgysylltu democrataidd ac asiantaethau gwirio credyd i gadarnhau eich manylion pan fyddwch yn gwneud cais am gredyd.

Os na ydych wedi dewis peidio ag ymddangos ar y gofrestr agored, gall unrhyw un brynu eich enw a'ch cyfeiriad a'u defnyddio at nifer o ddibenion, gan gynnwys marchnata uniongyrchol.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd. Mae'n rhaid iddo/iddi baratoi dogfen bolisi ar ffurf hysbysiad preifatrwydd yn nodi sut mae'n prosesu data personol. Cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar

«Web 2» neu cysylltwch â ni i ofyn am gopi.

«ERO name» «ERO address» «ERO telephone»

(*Barcode goes here*)